# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **20 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Jane Harris | Adran Etholiadol: | Pontarddulais |

| | |
|---|---|
| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth:** | Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cymerais ran mewn cymorthfeydd cyngor misol a gynhaliwyd ar ail ddydd Gwener pob mis a dydd Gwener olaf pob mis rhwng 5pm a 7pm yng Nghanolfan y Bont. Roeddwn yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Pontarddulais ac Ysgol Gynradd Pontarddulais. Fel aelod o Gyngor Tref Pontarddulais, euthum i gyfarfodydd misol i glywed am faterion lleol a helpu i'w deall. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld yn www.pontarddulaistowncouncil.gov.uk
Cysylltodd etholwyr â mi gydag amrywiaeth o faterion a gwneuthum hyrwyddo, cefnogi, siarad â swyddogion a darparu cyngor ar y canlynol: cynnal a chadw eiddo'r cyngor; mynediad i ofal cymdeithasol; fynediad i barcio i'r anabl; cynllunio; materion priffyrdd, materion llwybrau cerdded. Gweithiais gyda swyddogion i ddod o hyd i adnoddau i reoli a chynllun i ddatrys: problemau palmentydd; cyflymder traffig; parcio ger ysgolion; marciau ffyrdd; arwyddion; materion goleuadau; materion gwastraff; tyllau yn y ffordd.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 5 | / | 6 | 83 | % |
| Cabinet | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Y Cyngor | 11 | / | 18 | 61 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 3 | / | 6 | 50 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 1 | / | 4 | 25 | % |
| Bwrdd Pensiwn Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 3 | / | 4 | 75 | % |
| **CYFFREDINOL** | **44** | **/** | **62** | 71 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn.

Ers dod yn Aelod y Cabinet, rwyf wedi canolbwyntio ar y canlynol: datblygu a gwerthuso canlyniadau tair canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan gynnwys defnyddio staff yn y ffordd fwyaf effeithiol; adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth gofal cartref: adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth gofal dydd; adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth gofal preswyl; adolygiad o'r gwasanaeth iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Ymwelais â thair canolfan. Ymwelais â/neu ailymwelais â'r canlynol: cartrefi preswyl y cyngor; gwasanaethau dydd i oedolion hŷn; gwasanaethau dydd i oedolion â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu a chorfforol; cyfleoedd dysgu ar gyfer gwasanaethau gofal cartref; gwasanaethau a ddarperir trwy gefnogi pobl ddigartref. Wrth roi Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar waith, rwyf wedi bod yn gweithio ar broses llunio polisi ac arfer ar daliadau uniongyrchol, gofalwyr a chwynion.

Rwyf wedi bod yn weithgar wrth barhau i ddatblygu arfer partneriaeth ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin ac rwyf yn: Gadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Rhanbarthol ar gyfer Cefnogi Pobl; Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin dros Gamddefnyddio Sylweddau;
Cadeirydd y Fforwm Magu Plant Corfforaethol; Cadeirydd Grŵp Camddefnyddio Sylweddau'r ardal; Hyrwyddwr Iechyd a Lles. Euthum i'r cyfarfodydd a digwyddiadau canlynol: Gwobrau Rho 5; Pwyllgor Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin; Fforwm Partneriaeth Bae'r Gorllewin; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyfarfodydd Rhwydwaith 50+ Heneiddio'n Dda.
Cyrff Allanol (2015-2016): Cyngor Iechyd Cymunedol Abertawe a Bro Morgannwg; Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Yn dilyn sylwadau gan etholwyr, parheais i ddilyn: y potensial ar gyfer llwybrau beicio lleol; datblygiad parhaus y llwybr newydd o Siding Fach i Heol Goppa; datblygiad parhaus hawliau tramwy o Siding Fach tuag at Bengelli; cadw cae'r ysgol gynradd i blant Pontarddulais ei ddefnyddio; cadw'r cyfleuster bowls a'i ddatblygu ymhellach; cadw Parc Coedbach a'i ddatblygu ymhellach; datblygu cyfleusterau i boblogaeth Pontarddulais er mwyn sicrhau y gellir diwallu ei hangen; materion sy'n ymwneud â rheoli'r tyrbinau gwynt arfaethedig.

Parhau i gefnogi a chyd-drafod ar gyfer dymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle roedd tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw ac angen i gefnogi datblygiadau er lles y gymuned, gan gynnwys gosod a chynllunio bolardiau a/neu farciau ffordd ar Ffordd y Glöwr, Heol Glasfryn, Stryd Teilo Sant, a Heol Goppa; gwella cysgodfannau bws; marciau ffyrdd o gwmpas yr ysgolion; croesfan cerddwyr ar gyfer yr ysgol gynradd ar Folgoed.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
23/06/2015 - Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad
28/05/2015 - Recriwtio a Dethol

Yn fy rôl fel llywodraethwr, euthum hefyd i hyfforddiant Paratoi at Estyn.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cadeiriais y sefydliad elusennol o'r enw Partneriaeth Pontarddulais sy'n gweithio gydag etholwyr ym Mhontarddulais o'r ganolfan gymunedol, Canolfan y Bont, i hyrwyddo: cyfleoedd mynediad i waith; gwirfoddoli; TGCh, cynhwysiad digidol a datblygu sgiliau pobl o bob oed; mynediad lleol i radd ran-amser (Dyniaethau BA gan gynnwys seicoleg a chwnsela), materion treftadaeth gydag ysgolion lleol; mynediad i grantiau ar gyfer cyfleusterau; cynnal a chadw'r fynwent, yr orsaf drenau a'r hawliau tramwy ar y gors; cynnal a chadw'r ganolfan hyfforddiant a'i pharhad; datblygiad parhaus y siop elusennol.

Rwy'n gadeirydd ac yn swyddog cyllid Clwb Cinio Age Concern Pontarddulais sy'n rhoi cyfle wythnosol i gwrdd yn gymdeithasol ac mae'n trefnu teithiau i Aberaeron a Chaerfyrddin a chyfle gwyliau i Paignton a Llandudno i oedolion 50 oed a hŷn i gefnogi ffordd gadarnhaol o fyw. Cafodd y clwb £5,300 mewn grantiau gan 3 ariannwr grant.

Swyddog Cyllid Cyfeillion Parc Coedbach;
Ymddiriedolwr Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe;
Dirprwy Faer Cyngor Tref Pontarddulais.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet - Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad**: | 19.05.2016 |
| --- | --- |